**EITEM AR Y AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## TREFNIADAU AR GYFER YMDRIN Â MATERION ARCHWILIO

**Adroddiad ar y Cyd gan Ken Finch, Trysorydd yr Awdurdod ac Ian Miller, Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i ymestyn pwerau'r Panel Gweithredol i roi grym iddo ymdrin gyda materion archwilio penodol.

### Cefndir

**2.** Argymhellodd Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) yn ei Lythyr Archwilio Blynyddol 2005/06, y dosbarthwyd copïau i bob aelod ar 17eg Ionawr 2007, y dylai'r Awdurdod, fel mater o lywodraethu corfforaethol da sefydlu pwyllgor archwilio wedi'i gyfansoddi'n gywir. Diben hyn fyddai derbyn, trafod a monitro adroddiadau archwilio a sicrhau fod materion ac argymhellion godir gan archwiliad mewnol ac allanol yn cael eu gweithredu'n gywir ac yn brydlon.

### Gwybodaeth

**3.** Yn ystod ei gyfarfod ar 24ain Ionawr, fe dderbyniodd y Panel Gweithredol, yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub ar 18fed o Ragfyr 2006, Lythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 yn swyddogol. Yn ystod cyflwyniad yr archwilwyr allanol ar Lythyr Archwilio Blynyddol 2005/06 a'r eitem fusnes ar yr Asesiad Archwilio Mewnol roedd yr archwilwyr unwaith eto yn pwysleisio argymhelliad yr WAO y dylai'r Awdurdod ystyried sefydlu pwyllgor archwilio.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**4.** Yn ei drafodaethau, roedd y Panel Gweithredol yn gadarn o'r farn, gan dderbyn maint y sefydliad a'r hinsawdd bresennol sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus arddangos effeithlonrwydd ym mhob agwedd o'u gwaith, y byddai sefydlu pwyllgor archwilio annibynnol yn golygu defnydd aneffeithiol o adnoddau gwerthfawr.

**5.** Daeth y Panel i'r casgliad y byddai'n fwy synhwyrol i'r Awdurdod ymestyn cyfrifoldeb y Panel Gweithredol i gwmpasu swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â chanllaw CIPFA a gyhoeddwyd yn ddiweddar "Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities".

**6.** Os yw'r Awdurdod yn cymeradwyo argymhelliad y Panel ac yn mabwysiadu'r cynnig hwn, byddai'r cyfrifoldeb o dderbyn a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon blynyddol a'r Datganiad o Reolaeth Fewnol cysylltiedig yn aros yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Tân ac Achub. Os mabwysiedir y dull hwn, bydd angen newidiadau canlyniadol i Gylch Gwaith y Panel i gwmpasu ei gyfrifoldeb estynedig.

**Argymhellion**

**7.** Fod yr Awdurdod yn cymeradwyo:

**7.1** dirprwyo ei bwerau mewn perthynas â materion archwilio penodol i'r Panel Gweithredol; a

**7.2** bod cylch gwaith y Panel yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn i adlewyrchu ei bwerau ychwanegol:

"2.5 Yn ychwanegol, bydd y Panel Gweithredol yn gweithredu fel pwyllgor archwilio'r Awdurdod Tân yn unol â chanllaw CIPFA "Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities". Bydd hyn yn cynnwys cymeradwyo y strategaeth archwilio fewnol, y rhaglen flynyddol o archwilio mewnol ac allanol a'r adroddiad archwilio blynyddol".